TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Computer Aided Design (CAD) Level 3

Yn gryno

Er bod gwahanol fathau o feddalwedd drafftio a dylunio gyda chymorth cyfrifiadur (CAD) ar gael, un o'r rhai mwyaf poblogaidd yw AutoCAD. Ar y cwrs hwn, byddwch yn canolbwyntio ar ddefnyddio rhaglen AutoCAD i greu lluniadau 2D/3D.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno datblygu eu profiad a'u sgiliau o ran defnyddio meddalwedd CAD. Byddwch yn dysgu'r agweddau uwch sy'n perthyn i AutoCAD, yn cynnwys defnyddio'r cymhwysiad a'r rôl sydd gan luniadu a chynllunio CAD yn y diwydiant.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sydd dros 19 oed, byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £29,534 y flwyddyn.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...cymryd y cam nesaf yn eich gyrfa yn y sector Peirianneg trwy ddysgu sut i ddefnyddio AutoCAD i greu, golygu a rheoli lluniadau

...unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynhyrchu dyluniadau peirianneg a dylunio â chymorth cyfrifiadur

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs CAD Lefel 3 yn ddelfrydol os oes gennych gefndir mewn cyfrifiadura a dylunio ac os ydych wedi gweithio yn y maes dylunio peirianneg a gweithgynhyrchu ers peth amser. Rydych eisiau meithrin sgiliau dylunio 2D/3D arbenigol er mwyn eich helpu i gamu ymlaen yn eich gyrfa.

Mae pedwar cymhwyster ar gael ar y Lefel hon:

Dyfarniad Lefel 3 mewn Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur 2D
Dyfarniad Lefel 3 mewn Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur 3D
Dyfarniad Lefel 3 mewn Modelu Parametrig
Tystysgrif Lefel 3 mewn Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur

Ar gyfer y Dystysgrif Lefel 3, bydd angen ichi gwblhau dwy uned o blith CAD 2D, CAD 3D a/neu Fodelu Parametrig.

Gofynion Mynediad

I gofrestru ar y cwrs hwn, byddwch angen un o'r cymwysterau canlynol:

Dyfarniad Lefel 2 mewn Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur 2D
Dyfarniad Lefel 2 mewn Modelu Parametrig
Tystysgrif Lefel 2 mewn Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd modd trafod dyddiadau'r cwrs yn ystod y cais.